O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 1180 (Cy. 192)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân i Gylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, Torfaen) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

Gwnaed	*10 Tachwedd 2025*
Yn dod i rym	*11 Tachwedd 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A4042, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân i Gylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, Torfaen) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Tachwedd 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dileu Cyfyngiadau

3. Bydd y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffyrdd cyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Osgoi Llantarnam, Cwmbrân, Gwent) (Dileu Cyfyngiadau) 1996(**1**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Tachwedd 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 238 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân, gan gynnwys Cylchfan Croes-y-Mwyalch.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 155 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Crown, Cwmbrân hyd at bwynt 36 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl hyd at bwynt 155 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Crown, Cwmbrân, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

(**1**) O.S. 1996/1048.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 213 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl hyd at bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamhilad hyd at bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.